MAE YNA FFORDD WELL.

Mae llywodraeth glymblaid newydd y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi cyhoeddi cyfres o doriadau dinistriol yn y sector cyhoeddus - pob un yn enw llymder ariannol cynyddol. Ond mae yna ffordd well o ddelio â'r diffyg ariannol. Fydd torri gwasanaethau ddim yn dod â'r argyfwng i ben ond fe fydd yn cael effaith andwyol ar y bobl fwyaf bregus yn y gymdeithas.

Mae hi'n wir bod y DG yn wynebu argyfwng - argyfwng o ddiweithdra a thwf araf. Nid yw'r argyfwng, fodd bynnag, ac fel y mae Llywodraeth Glymblaid ConDem yn mynnu, yn argyfwng cyllid cyhoeddus. Bydd cadw gwariant at lefelau gweddus nid yn unig yn gwarchod ein gwasanaethau cyhoeddus, ond yn gyrru ein economi yn ei flaen hefyd. Mae llywodraeth ConDem wedi mynd ati'n fwriadol i wyrdroi a gorliwio'r problemau sy'n ymwneud â chyllid cyhoeddus a hynny at bwrpasau ideolegol.

YNG NGHYMRU, FE ALLAI TORIADAU GAEL EFFAITH DDINISTRIOL DDWBL.

Cafodd y dirwasgiad effaith enbyd ar ein sector gweithgynhyrchu. Nawr, mae'r sector cyhoeddus, sy'n gofalu am y boblogaeth hŷn, yn cynnal ein iechyd, yn darparu gwasanaethau lleol ac yn cyflogi cannoedd o filoedd o weithwyr yng Nghymru, yn cael ei fygwth.

DEWIS AMGEN I DORIADAU...

Yn hytrach na thorri gwasanaethau cyhoeddus, fe allem ni benderfynu rheoli'r diffyg dros yr hir dymor, targedu materion cymdeithasol fel anghydraddoldeb, diffyg buddsoddiad mewn addysg, tlodi plant a rheoleiddio'r sector ariannol.
Mae dadansoddiadau gan nifer o sefydliadau uchel eu parch yn awgrymu y gallai trethiant mwy cyfiawn, i dargedu'r rheiny sy'n osgoi talu trethi a'r sefydliadau hynny a achosodd yr argyfwng, godi dros £150bn.

Amcangyfrif o'r nifer o weithwyr sector cyhoeddus yng Nghymru

300,000

sy'n

24%

o holl weithlu Cymru.

Swm y gellid ei godi trwy drethu sefydliadau ariannol mewn modd mwy cyfiawn

£150bn

ALL TOGETHER FOR PUBLIC SERVICES

ALL TOGETHER FOR JOBS

WALES TUC CYMRU

Cyhoeddwyd gan TUC, 1 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 6SD

ATAL TRYCHINEBAU ECONOMAIDD PELLACH.

Mae nifer o economegwyr yn rhybuddio y gallai mynnu toriadau nawr arwain at danseilio'r gwellhad economaidd bregus. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae llywodraethau ledled y byd wedi gweithredu i leihau effeithiau'r dirwasgiad trwy ariannu'r sector cyhoeddus. Prin iawn yw'r dystiolaeth sy'n awgrymu bod y sector preifat neu gartrefi a theuluoedd cyffredin yn fodlon neu'n gallu sefyll yn y bwlch. O ganlyniad, fe allai rhaglen o doriadau arwain at gyfnod arall o ddirwasgiad.

YR EFFEITHIAU MWYAF DIFRIFOL AR Y RHEINY SY' FWYAF BREGUS...

Eleni, roedd y twf yng nghyfoeth y 1,000 o filiwnyddion mwyaf cyfoethog ar *Restr y Sunday Times* o Gyfoethogion y mwyaf yn hanes 22-mlynedd y rhestr honno. Mae'r prif fanciau, yr arweiniodd eu hymddygiad nhw at yr argyfwng yn y lle cyntaf, eisoes wedi dechrau gwneud elw eto.

Bydd toriadau i fudd-daliadau a gwasanaethau cyhoeddus yn effeithio ar y rheiny nad ydyn nhw mor gyffyrddus eu byd. Bydd menywod yn talu teirgwaith mwy na dynion i ateb gofynion y toriadau, er eu bod nhw'n dal i ennill llai ac yn berchen ar lai. Bydd y rheiny sy'n ennill y cyflogau isaf yn talu cyfradd uwch o'u cyflogau ar godiadau TAW sy'n golygu y bydd pobl nad ydyn nhw mor gyffyrddus eu byd yn ysgwyddo mwy o faich trethiant.

RHEOLI DYLED MEWN MODD CYNALIADWY.

Mae dyled llywodraeth y DG yn sicr yn uchel, ond nid yw hynny'n ddigynsail. Dim ond dros y degawd diwethaf y daeth hi'n normal i ni feddwl am ddyled y llywodraeth fel rhywbeth sefydlog, cymharol isel – ac mae'r DG mewn safle cryfach o lawer na nifer o economïau cymharol. Mewn gwirionedd, mae hi'n aml yn beth synhwyrol i lywodraethau gymryd dyledion mewn cyfnodau o galedi economaidd er mwyn talu am fuddsoddiadau (fel tai neu isadeiledd trafnidiaeth) fydd yn gwneud i'r economi weithiau'n fwy effeithiol – a'r buddsoddiadau hynny'n talu amdanyn nhw eu hunain yn yr hir dymor.

MAE GWASANAETHAU CYHOEDDUS YN RHAN HOLLBWYSIG O WELLHAD ECONOMAIDD Y SECTOR PREIFAT.

Mae buddsoddiad mewn isadeiledd a gwasanaethau cyhoeddus yn hollbwysig o ran sicrhau sector preifat cynhyrchiol. Mae'n rhan lawn mor bwysig o dwf yn y dyfodol â buddsoddiad gan y sector preifat. Er enghraifft, mae prosiectau adeiladau yn y sector cyhoeddus yn allweddol i'r diwydiant adeiladu mewn cyfnod economaidd anodd, ac mae sefydliadau sector cyhoeddus – o awdurdodau lleol i'r GIG – yn prynu nwyddau a gwasanaethau, sy'n rhoi hwb i fusnesau lleol.

MAE YNA FFORDD WELL.

Mae yna fwy nag un ffordd o roi terfyn ar argyfwng economaidd. Ymunwch â'n hymgyrch ni yn erbyn toriadau i'r sector cyhoeddus. Codwch eich llais.

Eleni, roedd y twf yng nghyfoeth y

1,000

miliwnydd mwyaf cyfoethog y mwyaf ers

22 mlynedd

Bydd menywod yn talu

3x

yn fwy na dynion i ateb toriadau'r diffyg.

I gael mwy o wybodaeth, gallwch ymweld â 'All Together For Public Services' ar

tuc.org.uk